CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

19 Medi 2023, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Williams, P Ellis, A Wyn, S Jones, E Williams, C McGregor, D ap Rhobert, R Hughes, N Dafydd (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Williams, D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng W Williams. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 18.07.23. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D ap Rhobert yn cynnig a Cyng S Jones yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Llwybrau cyhoeddus – Nid yw Llwybr troed 23/021/1 wedi cael ei dorri fel y cytunwyd. Cynigiodd y Cyng W Williams dynnu lluniau o'r llwybr. Nodwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn torri gwair yn Gors Bodeilio
4.2	Arwyddion yn y gilfan ger y sgwâr – mewn llaw
4.3	Cyffordd Bedd y wrach - Dywedodd y Cyng Ellis fod y Cyngor Sir wedi gwneud y gwaith angenrheidiol
4.4	Arwydd Ffordd yn fflachio - Dywedodd y Cyng A Wyn ei fod wedi siarad â Chynghorau Cymuned eraill ac nad ydynt bellach yn defnyddio goleuadau sy'n fflachio. Mae llawer ohonyn nhw ar yr ynys ddim yn gweithio ac mae angen eu newid i 20mya. Cytunwyd i adolygu'r mater hwn yn y cyfarfod nesaf a gweld sut mae pethau'n mynd ar ôl cyflwyno 20mya ar 17.09.23.
4.5	Gor-yrru Talwrn - Dywedodd y Clerc fod Sgt Dylan Roberts wedi bod mewn cysylltiad ag ef ac mae wedi cyfeirio'r mater at yr heddlu traffig. Cytunwyd i adolygu ym mis Hydref.
4.6	Seddi gwâg - Cytunodd yr aelodau i geisio recriwtio cynghorwyr newydd i lenwi'r 4 sedd wag.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	HHP/2022/242 Cais llawn ar gyfer dymchwel rhan o'r annedd ynghyd a addasu ac ehangu yn Gatehouse, Llangefni. (Tre-Ysgawen) – dim sylwadau
	Llofnod…….Cadeirydd 17.10.23

6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Rev Steve Leyland - Darllenwyd e-bost gan y Parch Leyland ynglŷn â baw cŵn yn Eglwys Sant Caian. Mae'n gofyn i'r Cyngor Cymuned brynu 2 arwydd i'w gosod ar bob un o giatiau'r eglwys. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r warden.
6.2	Karen Warburton - Cais gan Ms Warburton eisiau manylion enwau ar y gofeb yn Nhalwrn ac yn gofyn a oes gennym ni unrhyw gofebau eraill. Cynigiodd y Cyng W Williams dynnu llun o'r enwau ar y gofeb a'i anfon ymlaen at y Clerc. Yna bydd yn ymateb i Ms Warburton.
6.3	David Hughes - Cais gan Dr David Hughes yn dweud ei fod yn beryglus i gerddwyr a beicwyr yn Sgwâr Maenaddwyn oherwydd traffig yn goryrru ac yn gofyn i'r cyngor ystyried gostwng y cyfyngiad cyflymder. Cytunwyd i anfon ei gais at y Cyngor Sir. Cytunodd y Cyng Ellis hefyd i gyfeirio'r mater i'r Cyngor Sir.
6.4	Eisteddfod Talwrn - Mae'r Clerc wedi derbyn cais am rodd ariannol. Cytunwyd i dalu £500 - Cyng McGregor yn cynnig a'r Cyng E Williams yn eilio.
6.5	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Cytunodd yr aelodau i edrych ar yr ymgynghoriad a chyflwyno eu barn
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
7.1	Rhys Williams (torri gwair 2022) £1199.00
7.2	JRB Enterprise (bagiau gwastraff cwn) £289.80
7.3	Cyngor Gwynedd (Archwilio) £234.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Cerbydau yn gwrthod ildio yn Talwrn - Cytunwyd i gyfeirio'r mater hwn eto i'r Cyngor Sir. Mae angen tocio o amgylch yr arwyddion.
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 17.10.23